

Noddfa - parhad

Allan â ni wedyn i gae'r ysgol i fwynhau picnic a chlonc yn yr heulwen braf.

Roedd y Mamau wedi paratoi cŵn poeth i'r plant a bu nifer o'r oedolion yn cyfranogi ohonynt hefyd! Cafodd y plant lawer o hwyl yn yr awyr agored - rhai ohonynt yn dangos eu doniau yn y maes pêl droed.

Do, bu'n brynhawn bendithiol a phleserus dros ben a'r tywydd tesog yn goron ar y gweithgareddau.

(Diolch i Janet am yr adroddiad hwn, ac am drefnu cyfraniadau'r plant!)

Cofiwch hefyd am Gwrdd Diolchgarwch Noddfa am 7 yr hwyr ar y 30ain o Fedi: y Parchg Athro Densil Morgan yn pregethu. Croeso i bawb.

Oedfa Fedydd 1af o Fedi

Fel y gwelwch o'r Deufis fe fydd bedyddfan Aberduar yn agored ar y 1af o Fedi am 10 y bore, ar gais pobl ifainc Brynhafod. Byddaf yn cwrdd â phawb sy'n gwybod eu bod am gael eu bedyddio ar y 31ain o Awst (bore Sadwrn) am 10.30 y bore.

Os gwelwch yn dda, os ydych yn gwybod am rywun o'r Cylch sy'n dymuno cael bedydd ar y 1af o Fedi, **trefnwch eu bod yn cysylltu â fi** ar fyrder ar e-bost i mi gael trefnu trafod cyn hynny.

Lori GSUS


Fe fydd y lori genhadol hon yn cyrraedd erbyn 30 Medi am wythnos. Cynhelir hyfforddiant i'r rhai sy'n helpu ar 31 Awst yn Ysgol Tregaron. Mae arna i angen gwirfoddolwyr i helpu gyda'r lori, ac i siarad gyda'r plant! Enwau i Jill...

Oedfa eciwmenaidd

26 Medi 2013
Eglwys San Pedr
7 o'r gloch
Croeso i bawb!.

Lansio llyfr

Nos Iau, **Medi 19**, 2013 am 6.30 p.m. yng Nghanolfan Edward Richard, **Ystrad Meurig**. Lawnsiad y llyfr gan Wasg Carreg Gwalch o **From Aberystwyth to San Francisco**. Detholiad a chyfieithiad gan Margaret Jones (Noddfa) o Lythyron y Parchedig W.D. Evans (Cymru a'r Unol Daleithiau) i'r Faner yn yr wythdegau o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yw. Bydd lluniaeth ysgafn ar eich cyfer. Dewch yn llw. Croeso cynnes i bawb. *(Diolch i Margaret am yr hysbys yma.)*



Deufis

Eglwys Bedyddwyr Gogledd Teifi

Awst a Medi 2013

Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus.

4 Awst

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	6.00 yr hwyr	Cymun

11 Awst

Bethel	10.15 y bore	Oedfa gymun i Noddfa, Caersalem a Bethel yng ngofal Mrs Delyth Phillips
Seion	2.00 y prynhawn	Oedfa gymun ar gyfer Brynhafod a Seion yng ngofal Mr Gwilym Jones

18 Awst

Caersalem	2.00 yr hwyr	Oedfa i Noddfa, Caersalem a Bethel o dan ofal Parchg Stephen Morgans
-----------	--------------	--

25 Awst

Noddfa	10.30 y bore	Oedfa Eisteddfod Pantyfedwen: disgwylir y Parchg Eirian Wyn Lewis, Mynachlogddu i bregethu
--------	--------------	--

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)

1 Medi

Aberduar	10.00 y bore	Oedfa fedydd
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	6.00 yr hwyr	Cymun

8 Medi

Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

15 Medi

Noddfa	9.30 y bore	
Aberduar	11.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	

22 Medi

Bethel	10.15 y bore	
Brynhafod	1.30 y prynhawn	
Seion	3.00 y prynhawn	

29 Medi

Bethel	10.30 y bore	Oedfa unedig i'r Cylch
--------	--------------	------------------------

Rhaghybys: 6 Hydref

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun

Cinio'r Cylch

Cynhelir Cinio'r Cylch ar nos Fawrth y 10fed o Fedi yn y Grannell, Llanwnnen, a'r gŵr gwâdd fydd Mr Wyn Gruffydd, Llangain. Rhowch eich enwau a'ch dewis o'r fwydlen i Ysgrifennydd eich capel erbyn y Sul cyntaf o Fedi os gwelwch yn dda. Croeso i bawb.

Te yr Ifanc o Galon

Diolch i bawb o Noddfa Caersalem a Bethel fu'n cyfrannu bwyd a gwobrau ar gyfer y Te ar y 10fed o Orffennaf, ac yn gweini, a Hwrê mawr i'r plant a'r bobl ifainc fu'n diddanu!

I gael 'Deufis' ar ffurf pdf ar e-bost, anfonwch air ataf i 'jilltomos@tesco.net'.

Newyddion o Frynhafod

Arbrawf Newydd

Yn dilyn cyfarfod o aelodau Brynhafod yn ddiweddar i ystyried y ffordd ymlaen, awgrymodd ein Gweinidog ein bod yn newid ychydig ar drefn y gwasanaethau gan roi cyfle i aelodau gymryd rhan mwy gweithredol yn y gwasanaethau trwy fod unigolyn yn gyfrifol am ran gyntaf yr oedfa.

Cynhaliwyd yr arbrawf cyntaf ar ddydd Sul 14eg o Orffennaf gyda Enfys Hatcher yn arwain. Dewisodd y pwnc amserol iawn 'Bedydd' fel testun ei chyflwyniad. Roedd yn gyflwyniad bywiog a rhyngweithiol iawn gyda'r gynulleidfa yn cymryd rhan weithredol iawn! Diolch i Enfys am arwain y ffordd mor ragorol ac edrychwn ymlaen at yr oedfa nesaf, fydd yng ngofal Margaret ar yr 8fed o Fedi.

Bedydd

Ar Sul cyntaf Medi bydd pump o ieuenctid yr eglwys yn cael eu bedyddio yn Aberduar. Edrychwn ymlaen at yr oedfa a diolchwn i ddi-aconiaid Aberduar am eu cydweithrediad parod.

Cymanfa Ganu Ddiolchgarwch

Nos Sul Medi 22ain yng Nghapel Brynhafod am 7 o'r gloch: croeso i bawb.

Oedfa Deuluol Noddfa

Cynhaliwyd oedfa deuluol yn Ysgol Carreg Hirfaen ar brynhawn Sul 21 Gorffennaf. Er bod sawl teulu wedi methu bod gyda ni da oedd gweld nifer teilwng yn cynnwys babanod, plant, ieuenctid ac oedolion wedi dod ynghyd i addoli ac i gael hwyl yng nghwmni ei gilydd. Croesawyd pawb yn gynnes gan ein Gweinidog a chyhoeddwyd yr emynau gan Lisa, Elan, Beca, Osian a Sion ac yn cyfeilio roedd Janet. Darllenwyd rhan o'r gair gan Llinos yn sôn am Iesu yn galw Simon a'i frawd Andreas ynghyd â'r brodyr Iago ac Ioan i'w ddilyn ef, tra roeddent yn pysgota. Yna bu'r plant yn cynorthwyo'r Gweinidog drwy ail greu'r sefyllfa ar lan môr Galilea a chael hwyl wrth wneud hynny yn enwedig trafod y rhwyd bysgota enfawr! Soniodd ein Gweinidog pa mor bwysig yw dilyn Iesu fel y disgyblion gynt a hefyd i garu ac i helpu pawb er ei bod yn anodd gwneud hynny ambell waith. Diolchodd i Aled Evans Pennaeth Carreg Hirfaen am gael defnydd o'r ysgol, i'r rhai oedd wedi cymryd rhan ac i bawb am eu cefnogaeth. Mawr yw ein dyled i'n Gweinidog hefyd am ei pharatoadau hithau.